23. MEWN UNDOD MAE NERTH
(stori o'r unfed ganrif ar bymtheg)

Stori am gerflun yw hon – cerflun yn dangos tri pherson o amgylch corff Crist. Ar y dde mae'r Forwyn Fair. Ar y chwith Mair Magdalen. Ac yn y cefn yn gwisgo clogyn mae Nicodemus a'i wyneb caredig ond trist. Dengys y gwaith gariad y dilynwyr hyn tuag at yr Iesu. Ond ynddo ceir neges arall – neges wedi'i chuddio'n ddwfn yn ei orffennol.

Rhan o golofn farmor mewn teml o gyfnod y Rhufeiniaid oedd y cerflun i ddechrau. Ymhen blynyddoedd lawer, dymchwelodd y deml a daeth y blocyn marmor i ddwylo un o artistiaid enwocaf y byd – gŵr o'r enw Michelangelo.

Dechreuodd ei waith. Naddu ... naddu ... a naddu! Yr oedd yn waith hynod o galed a'r marmor yn galed ac yn llawn o frychau. Ond gweithiodd yr hen ddyn yn ddiwyd a gellid gweld amlinell campwaith o gerflun ar fin ymddangos.

Ond un diwrnod cafwyd trychineb enfawr. Tybed a ddigwyddodd yr un peth i chi? Rydych chi wrthi'n brysur yn arlunio neu baentio – ond, o diar – mae'r bensel neu'r brws paent yn llithro gan adael llanast llwyr ar draws y papur. Ond yn achos Michelangelo y cŷn a lithrodd. O na! Edrychodd ar ei waith a sylweddoli ei fod wedi

cerfio darn rhy fawr o benelin Mair.

Wnawn ni ddim gofyn beth fyddech chi yn ei wneud mewn sefyllfa o'r fath. Ond fe wylltiodd Michelangelo yn gacwn. Trodd at ei was a gweiddi arno, 'Drycha be sy 'di digwydd! Dy fai di ydi o. Ti wastad yn fy mhoeni.' Trodd yn ôl at y cerflun. 'Mae o wedi ei ddifetha!' Ni allai weld unrhyw ffordd i drwsio'r cerflun. Cydiodd yn ei gŷn a'i forthwyl a dechrau malu darnau mawr o'r cerflun.

Edrychodd Urbino ac Antonio ei weision arno mewn braw. Disgynnodd darn o'r marmor i'r llawr. Trwyn Nicodemus efallai? Ynteu penelin Mair?

'Paid!' erfyniodd Antonio. 'Paid â malu'r cerflun! Rho fo i mi.'

'Cymera fo.' Taflodd Michelangelo y cŷn a'r morthwyl i'r llawr. Felly rhoddodd y cerflun i Antonio.

Bu'r cerflun yn ei ystafell am flynyddoedd. Byddai'n edrych arno'n aml, a'i lanhau weithiau. Ond dyna'r cyfan y gallai ei wneud.

Yna, pan oedd Michelangelo ymhell yn ei wythdegau, caniataodd i brentis o'r enw Tiberio ddod i weithio iddo. Mewn rhai ffyrdd yr oedd Tiberio fel ci bach yn llawn brwdfrydedd. Yr oedd yn llawn chwilfrydedd hefyd ac un diwrnod sylwodd ar ddarnau o'r marmor toredig ar lawr y seler. 'O ble daeth y rhain?' holodd.

Yr oedd Tiberio'n llawn cynnwrf ar ôl clywed eglurhad Antonio.

'Cerflun anorffenedig! Gwych! Lle mae o?' gofynnodd.

'Lle ti'n feddwl?' atebodd Antonio. 'I fi roddodd Michelangelo y cerflun. Mae o yn fy llofft.'

'Gad i mi ei gael o,' erfyniodd Tiberio. 'Fe geisiaf ei adfer.'

Yr oedd golwg amheus ar wyneb Antonio. Ef oedd berchen y cerflun ac yr oedd yn hoff ohono.

'Fe gei di rywbeth yn ei le,' addawodd Tiberio. 'Yr wyt ti'n gwybod na elli di, wedi'r cyfan, ei drwsio.'

Do yn wir, fe achubodd Antonio y cerflun ond ni allai ei drwsio.

'Iawn 'te. Gwna be elli di,' cytunodd Antonio.

Aeth Tiberio â'r cerflun i'w le gwaith. Aeth misoedd lawer heibio – a threuliai'r prentis ifanc ei amser yn dyfal gerfio o fore hyd nos, gan ofyn yn bur aml i Michelangelo am gyngor. Yn ofalus bu iddo adfer ffigyrau Nicodemus a'r Forwyn Fair. Yn grefftus cerfiodd ffigur Mair Magdalen. Llwyddodd i ddarlunio ysbryd cariad. Ac

o'r diwedd yr oedd yr holl gerflun yn orffenedig.

Gellir gweld y cyfuniad o frwdfrydedd Tiberio, gofal Antonio a gwychter Michelangelo heddiw yn yr Eglwys Gadeiriol yn Fflorens. Mae'n sicr na ŵyr llawer o'r ymwelwyr a ddaw i'w weld yr hanes y tu cefn i'r cerflun. Ond yno y saif y cerflun cywrain hwn gyda'i neges fod cydweithio yn dwyn ffrwyth.

HYD: 4–5 munud

NEGES: Ni adeiladwyd teyrnas Dduw trwy waith unigol, ond trwy gydweithio â Christ.

DARLLEN: 1 Corinthiaid 3: 1–11; 2 Cronicl 2: 1–18

GWYBODAETH YCHWANEGOL:
Ganed Michelangelo, un o artistiaid enwocaf y Dadeni, yn 1475 a bu farw yn 1564. Ymysg ei gerfluniau enwocaf y mae 'Pieta' (1499) yn y Fatican, 'Dafydd' (1504) yn Fflorens a 'Moses' (1545) hefyd yn y Fatican. Wrth lunio'r cerflun yn ein stori dywedir fod Michelangelo wedi seilio Nicodemus ar ddelfryd ohono ei hunan.